OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 2824 (Cy.247)

TAI, CYMRU

Gorchymyn Trwyddedu Dethol Tai (Esemptiadau Penodedig) (Cymru) 2006

Wedi'i wneud	- -	*25 Hydref 2006*
Yn dod i rym	- -	*26 Hydref 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 79(4) o Ddeddf Tai 2004(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Trwyddedu Dethol Tai (Esemptiadau Penodedig) (Cymru) 2006 a daw i rym ar 26 Hydref 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i dai(**2**) yng Nghymru.

Tenantiaethau esempt neu drwyddedau esempt at ddibenion Rhan 3 o Ddeddf Tai 2004

2.—(1) Mae tenantiaeth neu drwydded tŷ neu annedd sydd wedi'i chynnwys mewn tŷ yn denantiaeth esempt neu'n drwydded esempt at ddibenion Rhan 3 o Ddeddf Tai 2004 ("y Ddeddf") os yw'n dod o dan unrhyw un o'r disgrifiadau canlynol —

(a) tenantiaeth neu drwydded tŷ neu annedd sy'n ddarostyngedig i orchymyn gwahardd a wnaed o dan adran 20 o'r Ddeddf ac nad yw ei weithredu wedi'i atal yn unol ag adran 23 o'r Ddeddf;

(b) tenantiaeth a ddisgrifir yn unrhyw un o ddarpariaethau canlynol Rhan 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Tai 1988(**3**) ac na all fod yn denantiaeth sicr yn rhinwedd adran 1(2) o'r Ddeddf honno —

(i) paragraff 4 (tenantiaethau busnes);

(ii) paragraff 5 (mangreoedd trwyddedig)(**4**);

(iii) paragraff 6 (tenantiaethau tir amaethyddol); neu

(**1**) 2004 p. 34. Mae'r pwerau a roddwyd gan adran 79(4) o'r Ddeddf yn arferadwy o ran Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gweler y diffiniad o'r "appropriate national authority" yn adran 261(1).
(**2**) Am ystyr "house" *gweler* adran 99 o'r Ddeddf.
(**3**) 1988 p. 50.
(**4**) Mae paragraff 5 o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Tai 1988 wedi'i ddiwygio gan adran 198(1) o Ddeddf Trwyddedu 2003 a pharagraff 108 o Atodlen 6 iddi (p. 17).

(iv) paragraff 7 (tenantiaethau daliadau amaethyddol(**5**)etc.);

(c) tenantiaeth neu drwydded tŷ neu annedd a reolir neu a lywir gan —

(i) awdurdod tai lleol;

(ii) awdurdod heddlu a sefydlwyd o dan adran 3 o Ddeddf Heddlu 1996(**6**);

(iii) awdurdod tân ac achub o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(**7**); neu

(iv) corff gwasanaeth iechyd o fewn ystyr "health service body" yn adran 4 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990(**8**);

(ch) tenantiaeth neu drwydded tŷ nad yw'n dŷ mewn amlfeddiannaeth at unrhyw un o ddibenion y Ddeddf (ac eithrio Rhan 1) yn rhinwedd —

(v) paragraff 3 o Atodlen 14 i'r Ddeddf (adeiladau a reoleiddir heblaw o dan y Ddeddf); neu

(vi) paragraff 4(1) o'r Atodlen honno (adeiladau sydd wedi'u meddiannu gan fyfyrwyr)(**9**);

(d) tenantiaeth tŷ neu annedd —

(i) pan fo tymor llawn y denantiaeth yn fwy nag 21 o flynyddoedd;

(ii) pan na fo'r brydles yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi'r landlord i terfynu'r denantiaeth, ac eithrio drwy ei fforffedu, yn gynharach na diwedd y tymor; a

(iii) pan fo'r tŷ wedi'i feddiannu neu'r annedd wedi'i meddiannu gan berson y rhoddwyd y denantiaeth iddo neu i olynydd y person hwnnw yn y teitl neu unrhyw aelodau o deulu'r person hwnnw;

(dd) tenantiaeth neu drwydded tŷ neu annedd a roddwyd gan berson i berson sy'n aelod o deulu'r person cyntaf hwnnw —

(i) pan fo'r person y mae'r denantiaeth neu'r drwydded wedi'i rhoi iddo yn meddiannu'r tŷ neu'r annedd fel ei unig neu brif breswylfan;

(ii) pan fo'r person sy'n rhoi'r denantiaeth neu'r drwydded yn rhydd-ddeiliad neu ddeiliad prydles ar y tŷ neu'r annedd nad yw ei thymor llawn yn hwy nag 21 o flynyddoedd; a

(iii) pan na fo'r brydles y cyfeiriwyd ati yn is-baragraff (ii) yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi'r landlord i terfynu'r denantiaeth, ac eithrio drwy ei fforffedu, yn gynharach na diwedd y tymor;

(e) tenantiaeth neu drwydded a roddir i berson mewn perthynas â meddiannaeth y person hwnnw ar dŷ neu annedd fel cartref gwyliau; neu

(f) tenantiaeth neu drwydded y mae'r meddiannydd yn rhannu unrhyw lety sydd o dan ei thelerau â'r landlord neu'r trwyddedwr neu aelod o deulu'r landlord neu deulu'r trwyddedwr.

(2) At ddibenion yr erthygl hon —

(a) mae person yn aelod o'r un teulu â pherson arall —

(i) os yw'r personau hynny'n byw fel cwpl;

(ii) os yw'r naill ohonynt yn berthynas i'r llall; neu

(**5**) Mae paragraff 7 o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Tai 1988 wedi'i ddiwygio gan adran 40 o Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 a pharagraff 34 o Atodlen 6 iddi (p. 8).
(**6**) 1996 p. 16.
(**7**) 2004 p. 21.
(**8**) 1990 p. 19.
(**9**) *Gweler* adran 254(5) o'r Ddeddf.